# Cyfrannu at arferion cynaliadwy mewn ceginau

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â gweithio mewn ffordd gynaliadwy mewn cegin fasnachol.

Bydd angen i chi weithio’n effeithiol i sicrhau bod cyfleustodau ac adnoddau eraill yn cael eu defnyddio’n effeithlon, ac i leihau gwastraff. Yn ogystal, mae angen i chi asesu eich perfformiad eich hun a nodi cyfleoedd i wella effeithlonrwydd, a’u rhoi ar waith.

Argymhellir y safon hon ar gyfer cogyddion llinell, cynhyrchu, iau a chefs eraill sy’n gweithio mewn ceginau masnachol.

Pan fyddwch chi wedi cwblhau’r safon hon, byddwch chi’n gallu dangos eich dealltwriaeth o’r canlynol, a’ch gallu i:
• Gyfrannu at arferion cynaliadwy mewn ceginau

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Gweithio yn unol â gweithdrefnau gweithredu safonol
2. Asesu eich perfformiad eich hun i nodi gwelliannau posibl mewn effeithlonrwydd
3. Rhoi gwybod yn gywir am unrhyw gyfleoedd i wella effeithlonrwydd cyfleustodau ac adnoddau eraill
4. Rhoi gwybod yn brydlon ac yn gywir am amrywiadau yn y defnydd o gyfleustodau ac adnoddau ac unrhyw gamau rydych chi wedi'u cymryd i ymateb
5. Rhoi camau gweithredu ar waith i wella effeithlonrwydd y defnydd o gyfleustodau ac adnoddau eraill
6. Gweithio'n effeithlon yn unol â manylebau'r fwydlen i osgoi a lleihau gwastraff

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Terminoleg a ddefnyddir yn gysylltiedig â chynaliadwyedd mewn ceginau masnachol
2. Pam mae ceginau masnachol yn defnyddio bwyd o ffynonellau cynaliadwy
3. Pa gyfleustodau ac adnoddau sy'n cael eu defnyddio mewn ceginau masnachol a sut maent yn cael eu defnyddio
4. Pam mae angen i geginau masnachol leihau'r defnydd o gyfleustodau
5. Sut gallai ceginau masnachol wella'r defnydd o gyfleustodau
6. Pa fentrau'r llywodraeth all helpu i wella'r defnydd o gyfleustodau

## Cwmpas/Ystod

**1. Cyfleustodau ac adnoddau eraill**

1.1 nwy

1.2 trydan

1.3 dŵr

1.4 bwyd

1.5 adnoddau tafladwy

1.6 amrywiol bethau e.e. tunffoil, cling ffilm

Cyfrannu at arferion cynaliadwy mewn ceginau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | People 1st |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | People 1st |
| **RCU gwreiddiol** | PPL2PC34 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Lletygarwch |
| **Cyfres/Set** | Lletygarwch - Cyffredinol |
| **Geiriau Allweddol** | cynaliadwyedd, cynaliadwy, bwydlen, coginio, cogydd, chef |